

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £6m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, ac mae cynlluniau arbedion mwy heriol yn wyneb setliad grant siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20 yn golygu fod y risg yn parhau (os nad yw'n dwysau). Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol (gweler Atodiad 8 am Strategaeth Ariannol tymor canolog).
4. Wedi neilltuo arian yn y Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol er mwyn delio gyda gorwariant posib rhai gwasanaethau yn ystod 2018/19, ac ar ôl ymrwymo £38k o gronfa penodol er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2019/20.**
5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 22 Mai 2018 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 28 Mehefin 2018, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £2.75m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mai/Mehefin 2019**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru", mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."
7. Hefyd, ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i'n sefyllfa ac yn dangos Cyngor Gwynedd ar lefel rhesymol yn ganol amrediad o gronfeydd defnyddiadwy awdurdodau Cymru.

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy>
8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o gronfeydd penodol i ariannu gofynion un-tro yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20.